

## **CYNGOR LLYFRAU CYMRU: CRONFA ARGYFWNG I GYHOEDDWYR**

### ***Cefndir***

Ar ddiwedd Mawrth 2020, darparodd Llywodraeth Cymru grant ychwanegol o £150,000 i Gyngor Llyfrau Cymru. O'r swm yma, mae £52,765 ar gael i'w ddosbarthu i'r sector.

Mae rhai cyhoeddwy eisoed wedi cael budd o'r Gronfa Cadernid Diwylliannol a'r Gronfa Cadernid Economaidd. Ein blaenoriaeth ni yw cefnogi'r cyhoeddwy a'r cylchgronau hynny o Gymru nad ydynt wedi cael budd o gronfeydd o'r math yma yn y gorffennol, neu sy'n dioddef problemau parhaus wrth geisio dychwelyd at yr arferion masnachu arferol.

Ein bwriad yw darparu proses sydd mor gyflym a rhwydd i'w gweithredu ag sy'n bosibl, felly mae yna broses syml ar gyfer ceisiadau am symiau sy'n llai na £1,000.

Dim ond am **un** o'r ddau ddewis a gynigir y gallwch gyflwyno cais. Nid yw hunan-gyhoeddwy yn gymwys, a rhaid i waith cyhoeddi fod yn mynd yn ei flaen, gydag o leiaf 1 cyhoeddiad wedi'i gynllunio ar gyfer 2022.

### **Pwy sy'n gymwys i wneud cais?**

- Mae'r gronfa'n agored i unrhyw gyhoeddwy (llyfrau a chylchgronau) sydd â'u prif swyddfa yng Nghymru.
- Gall fod yn fusnes, neu yn sefydliad nid-er-elw, neu unigolion os gallant ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi eu cofrestru fel cyhoeddwy hunan-gyflogedig gyda Chyllid a Thollau EM.
- Rhaid bod gan gyhoeddwy gyhoeddiadau newydd ar y gweill ar gyfer naill ai 2021 neu 2022, gydag incwm yn cael ei gynhyrchu drwy naill ai werthiant a/neu hysbysebion. Nid oes raid i hyn fod yn brif ffynhonnell incwm i chi, ond rhaid i gylchgronau rhad ac am ddim ddangos sut maent yn llwyddo i gyflawni naill ai weithgareddau diwylliannol neu ar hyrwyddo darllen, gan fod y gronfa hon yn cefnogi'r diwydiannau creadigol.
- Gall cyhoeddwy sydd wedi derbyn mwy na £10,000 o'r Gronfa Adfer Diwylliannol, neu fwy na £10,000 o'r Gronfa Adfer Economaidd, wneud cais am y broses syml yn unig (Dewis 1). Tra bod gennym ddata ar hyn, disgwyliwn i gyhoeddwy fod yn onest yn eu cais.

Bwriedir i'r broses fod yn gyflym a syml i'w gweithredu. Rydym yn anelu at weinyddu taliadau o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad cau. Os bydd nifer y ceisiadau'n golygu bod hyn yn amhosibl, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd.

- Bwriad yr arian hwn yw cynnig cymorth yn y tymor byr i gyhoeddwyr sydd mewn argyfwng i'w galluogi hwy i oroesi'n ariannol; oherwydd hynny, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn gwerthiant, ac sydd â'u busnes yn dibynnu'n drwm ar werthiant (h.y. mae'r rhan fwyaf o incwm y busnes yn dod o werthiant yn hytrach nag o ffynonellau eraill).
- Lle roedd canran uchel o'ch trosiant yn dod o ffynonellau eraill (grant neu danysgrifiadau), mae'r cais yn llai tebygol o lwyddo.
- Ni fydd y gronfa'n ffocysu ar y costau i'ch busnes nac ar eich penderfyniadau ynghylch y trefniadau i dalu staff / gweithwyr hunan-gyflogedig, ond bydd yn eich digolledu chi am yr incwm a gollwyd – yn bennaf trwy werthiant.

### **DEWIS 1 – PROSES SYML – HYD AT £1,000**

Mae'r broses hon yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf priodol. Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau crynodeb o ddim mwy na 200 gair yn disgrifio sut mae cyfnod clo COVID wedi effeithio ar y busnes, a pha wahaniaeth y byddai'r £1,000 yn ei wneud i chi fel busnes. Dylech sicrhau eich bod yn gymwys yn unol â'r canllawiau hyn, gan y bydd yr wybodaeth yn cael ei gwirio gyda ffynonellau yn Llywodraeth Cymru/yr awdurdodau lleol.

Noder, os gwelwch yn dda, mai'r broses syml hon yw'r unig un y gall cyhoeddwyr sydd wedi derbyn mwy na £10,000 o'r Gronfa Adfer Diwylliannol, neu fwy na £10,000 o'r Gronfa Adfer Economaidd, wneud cais amdani. Yn dibynnu ar y nifer o geisiadau cymwys a gyflwynir, bydd yr elfen hon yn cael ei rhannu rhwng faint bynnag o geisiadau a dderbynnir.

### **DEWIS 2 – CYHOEDDWYR SY'N BODOLI EISOES – HYD AT £5,000**

#### **Beth yw'r uchafswm grant sydd ar gael?**

- Grant o hyd at £5,000. Amgylchiadau eithriadol yn unig fydd yn gymwys ar gyfer y swm llawn o £5,000. Gallwch wneud cais am unrhyw swm dan £5,000 – nid oes unrhyw isafswm.

#### **Pa gwestiynau sy'n rhaid i chi eu hateb?**

Mewn llai na 500 gair, mae angen i chi esbonio:

1. Faint o incwm a gollwyd dros y 18 mis diwethaf, o'i gymharu â'ch incwm blaenorol (o werthiant neu hysbysebu).
2. Faint o grantiau eraill rydych wedi eu derbyn yn ystod y 18 mis diwethaf, h.y. grantiau dewisol yr awdurdodau lleol, y Gronfa Adfer Diwylliannol, y Gronfa Adfer Economaidd, Cyngor Celfyddydau Cymru neu Gyngor Celfyddydau Lloegr, neu unrhyw ffynonellau cyhoeddus eraill sy'n gysylltiedig â COVID (peidiwch â chynnwys grantiau o'r Cyngor Llyfrau, a dylech eithrio cynllun ffyrlo CthEM).

3. Pa ganran o'ch incwm blynyddol sy'n dod o werthiant? Nodwch ble mae gweddill eich incwm yn cael ei gynhyrchu, yn cynnwys grantiau (a hysbysebion ar gyfer cylchgronau). Dylech seilio eich ffigurau ar berfformiad yn y cyfnod Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021, a datgan beth fu'r effaith ar eich incwm oddi ar hynny.
4. Pa ddefnydd fydddech chi'n ei wneud o'r arian ychwanegol a dderbyniwyd, a sut y bydd hyn yn eich helpu i'ch cael yn ôl ar y llwybr cywir fel bod eich busnes yn gynaliadwy? Y nod yw helpu busnesau i oroesi yn y tymor hir, ac os nad yw eich busnes yn gynaliadwy dylech esbonio pa gamau rydych yn eu cymryd fel bod eich busnes yn gallu fforddio ei sylfaen gostau.

**Caiff unrhyw geisiadau sydd dros 500 gair eu diystyru, a byddwn yn cadw'r hawl i eithrio unrhyw geisiadau sy'n mynd dros y trothwy o ran nifer y geiriau.**

#### **PWYSIG: Rhaid darparu tystiolaeth ar gyfer Dewis 2**

- Dylech ddarparu mantolen banc am y mis diwethaf, sy'n dangos eich sefyllfa ariannol ym mhob un o gyfrifon banc y busnes.
- Dylech ddarparu copi o unrhyw e-byst oddi wrth Gyngorau Sir neu Busnes Cymru, neu unrhyw ffynhonnell arall sy'n datgan canlyniad eich cais am gyllid ychwanegol, neu unrhyw atodlen sy'n dangos eich bod wedi gwneud ceisiadau amgen am arian.

#### **Amserlen**

Bydd y broses yn agored ar gyfer ceisiadau o ddydd Gwener 19 Tachwedd 2021. Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy ebost at [post@llyfrau.cymru](mailto:post@llyfrau.cymru) erbyn 12 hanner dydd, dydd Llun 6 Rhagfyr 2021.

#### **Beth yw trefn y broses i gyflwyno cais?**

1. Gofynnwn i chi lenwi'r ffurflen yma:  
<https://forms.office.com/r/bXNVXk3uH8>
2. Byddwn yn penderfynu ar eich cymhwysedd trwy ystyried yr wybodaeth a'r dystiolaeth rydym yn eu derbyn.
3. Mewn rhai achosion, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am esboniad pellach o'ch cais.
4. Cyn gynted ag y bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo, byddwn yn gwneud taliad i chi ar unwaith.
5. Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw fonitro grant nac adrodd gwybodaeth pan wneir y taliad.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw eich cais yn aflwyddiannus. Bydd y penderfyniad hwn yn derfynol. Byddwn yn ymateb i bob cais o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad cau, ac yn ceisio ymateb yn gynt lle bo modd. Petai capasiti ein gweithlu yn gostwng oherwydd Coronavirus, byddwn yn cysylltu â chi i drafod amserlen ddiwygiedig.

## **Rhagor o wybodaeth**

Mae natur y gronfa'n dibynnu ar angen y busnes ac ar ddidwylledd y ceisiadau. Gofynnir i chi ateb bob cwestiwn yn llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwch yn ateb cwestiwn gan roi gwybodaeth anghywir, mae'n bosibl y bydd raid i ni adennill arian, neu weithredu mewn rhyw ffordd arall os byddwn yn amau unrhyw dwyll. Os hoffech drafod unrhyw gwestiynau eraill ynghylch y gronfa, mae croeso i chi gysylltu â ni ar [post@llyfrau.cymru](mailto:post@llyfrau.cymru).

Rydym yn anelu at ymateb yn ddi-oed i bob ymholiad. Os hoffech gael gair gyda ni, rhowch eich rhif ffôn yn y neges a byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.

## **Rhyddid Gwybodaeth**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod mor agored ag y bo modd. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym yn gwario arian cyhoeddus, a sut rydym yn dod i benderfyniadau ar faterion cyllid. Er nad ydym yn awdurdod cyhoeddus dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan fod yr arian yn dod o Lywodraeth Cymru, mae'n bosibl y bydd raid i ni, dan y gyfraith, ddarparu eich dogfennau cais chi a'r wybodaeth ar ein hasesiad ni ohonynt, i aelodau o'r cyhoedd sy'n gofyn am fynediad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau sy'n dod dan un neu ragor o eithriadau'r Ddeddf. Ewch i wefan yr ICO – <https://en.ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information> – i gael gwybodaeth gyffredinol am ryddid gwybodaeth a'r eithriadau.

Mae'n bosibl y bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n cyhoeddi'r symiau a ddyfarnwyd o'r gronfa argyfwng yn ei gyfrifon blynyddol.

## **I weud cwyn**

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd y cafodd eich cais ei thrin gennym, gallwch dderbyn copi o'n Proses Cwyno. Nodwch, os gwelwch yn dda, na allwch gwyno heblaw eich bod yn credu nad ydym wedi dilyn ein proses wrth ymdrin â'ch cais. Ni ellir defnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## **Diogelu Data**

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o rwymedigaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r rhain yn pennu sut rydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol, a'ch hawliau chi yn y cyd-destun hwnnw. Ni fyddwn yn datgelu data personol na data personol sensitif (fel y diffinnir hwy yn y Rheoliadau) heb eich caniatâd chi, os nad oes yna ddyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny.